



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach, Yn Gyflymach

Datganiad o Fwriad Llywodraeth Cymru



## Gweledigaeth

Gofal rhagorol sy'n seiliedig ar leoedd a dull system gyfan sy'n galluogi pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch i fyw eu bywyd gorau yn eu cymunedau eu hunain.

## Cenhadaeth

Bydd cefnogi poblogaeth sy'n tyfu'n gynyddol hŷn ac eiddil yn dod yn fwyfwy heriol bob blwyddyn tan ganol y ganrif. Rhagwelir y bydd cynnydd yng nghyfran y bobl 75 oed neu'n hŷn yng Nghymru, o 9.9% o'r boblogaeth yn 2021 i 13.8% yn 2041, sy'n golygu y bydd y nifer yn cynyddu o tua 307,000 o bobl i tua 455,000 o bobl.

Ar hyn o bryd, mae diffyg cydbwysedd amlwg yn ein system iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, mae cyfleoedd yn cael eu colli i atal ac ymyrryd yn gynnwys yn y gymuned, ac mae rhai unigolion yn parhau am gyfnodau hir mewn ysbytai aciwt a chartrefi gofal oherwydd nad oes darpariaeth arall ar gael iddynt. O ganlyniad, mae unigolion yn cael eu rhoi o dan anfantais ac nid yw'r 'hyn sy'n bwysig iddyn nhw' yn cael ei gyflawni, gan gynnwys ar ddiwedd oes.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae cyfyngiadau cyllid a materion strwythurol yn y farchnad lafur yn golygu bod yn rhaid inni gefnogi ein gweithlu presennol i ysgogi effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ar draws yr awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol. Mae cyfyngiadau mewn cyflenwadau llafur a chyllidebau cyfyngedig yn golygu bod angen inni hefyd feddwl y tu hwnt i wasanaethau statudol er mwyn cryfhau gallu cymunedol, gan gydnabod y penderfyniadau ehangach mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

Yn gyson â'n gweledigaeth i wireddu *Cymru Iachach*, byddwn yn mynd ymhellach, yn gyflymach, gyda'n gilydd i gryfhau gallu cymunedol drwy ddatblygu system gofal cymunedol integredig i Gymru. Dylai hyn ddarparu gofal rhagorol sy'n seiliedig ar leoedd a dull system gyfan, gyda phobl ac ar eu cyfer, gan sicrhau eu bod yn parhau mewn cysylltiad â'u cymunedau a chan atal derbyniadau i'r ysbty y gellir eu hosgoi ar yr un pryd.



## Gwerthoedd

### Yn canolbwyntio ar unigolion

Unigolion eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i warchod eu gofal eu hunain. Dylai eu gofal a'u cymorth sy'n seiliedig ar leoedd ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, â'r cyfan wedi'i gydlynu a'i alluogi gan ein sefydliadau, a dylai ddod yn haws i'r boblogaeth gyfan eu deall / eu defnyddio. Dylai fod gan unigolion a'u gofawyr ddisgwyliadau tebyg ynghylch safon eu gofal a / neu eu cymorth, a dylai eu profiadau ohonynt hefyd fod yn debyg.

### Partneriaeth

Er mwyn llwyddo, bydd yn hanfodol i lywodraeth leol, Llywodraeth Cymru, y GIG, y Trydydd Sector, Cymdeithasau Tai a darparwyr gofal weithio gyda'i gilydd, a hynny yn ysbryd ymdrech ar y cyd bob amser.

### Synergedd

Dylid rhoi'r pwyslais ar y system yn ei chyfanrwydd, nid ar y rhannau unigol sy'n ei llunio. Dyma sy'n sail i'r dull o fynd 'Ymhellach, Yn Gyflymach' i ddatblygu'r uchelgais o gynllun Cymru Iachach ar gyfer y tymor hir. Bydd y dull 'Ymhellach, Yn Gyflymach' yn gweithio mewn synergedd â rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol sefydledig. Bydd yn cynyddu momentwm ac yn llywio datblygiadau, gan arwain at lai, nid mwy, o gymhlethdod.

### Dysgu am systemau / Yn agored i newid

Mae dulliau'r dyfodol gennym yn barod, ond nid ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal ar hyn o bryd. Byddwn yn mynd ati mewn modd mwy trwyadl i nodi'r datblygiadau arloesol 'gorau o'u math' o bob rhan o'r sector a fydd yn dod yn rhan o'n system gofal cymunedol genedlaethol ar gyfer y dyfodol. Bydd hefyd angen defnyddio mwy o gyllidebau a rennir rhwng sefydliadau yn y dyfodol.

## Strategaeth

**Bydd Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a'r GIG yn darparu arweiniad gyda'i gilydd, gan weithio'n adeiladol gyda phartneriaid.**

**Byddwn yn dwyn ynghyd fentrau presennol y GIG a mentrau gofal cymdeithasol a chymunedol, ac yn rhoi iddynt bwyslais penodol, a byddwn yn cynnig cyfleoedd newydd i arloesi a chyflenwi ar y cyd.**

**Ymagwedd 'dau lwybr':**

### Llwybr 1 (Byddwn yn cyflawni eleni)

Bydd partneriaid yn gweithio i gyflymu'r broses o gyflawni camau gweithredu sy'n gyson â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, gan gynnwys rhaglenni cenedlaethol iechyd a gofal cymdeithasol presennol e.e. Gofal Sylfaenol gan gynnwys y Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r Fanyleb Nyrsio Cymunedol. Bydd angen i bob menter gefnogi'r broses o symud adnoddau tuag at wasanaethau cymunedol, ataliol.

Bydd datganiad polisi eiddilwch yn gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu gwasanaeth system gyfan ymhellach, a bydd gan y Trydydd Sector rôl fwy integredig a fydd yn golygu bod modd cynnwys dinasyddion yn well.

Byddwn yn cymeradwyo modelau gofal sy'n parhau'n gyson â'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd. Mae'r cynigion sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd yn cynnwys:

- creu oriau ail-alluogi ychwanegol net o'u cymharu â'r gaeaf blaenorol;
- cyflymu'r gwaith o gyflwyno'r Fanyleb Nyrsio Cymunedol, yn benodol y cerrig milltir ar staff cyflenwi ar y penwythnos a thros nos;
- cynyddu'r ddarpariaeth cam-i-fyny a cham-i-lawr, gan adeiladu ar lwyddiant y model > 650 o welyau / darpariaeth sy'n cyfateb i welyau;
- mabwysiadu dull Cymru Gyfan ar gyfer Teleofal a Teleiechyd, drwy gyflymu ac ehangu gwaith rhaglenni presennol. Bydd hyn yn golygu cynyddu cwmpas a maint canolfannau presennol, a datblygu rhwydwaith o ddwy i dair canolfan ranbarthol gydgysylltiedig a fydd yn mabwysiadu agwedd o fynd ati ar y cyd tuag at gyflenwi;
- cynyddu nifer y cydgysylltwyr cymunedol a'r opsiynau atgyfeirio drwy'r trydydd sector, gan osgoi dyblygu. Cyflawni potensial y trydydd sector yn llawn, ar sail canlyniadau clir sy'n cefnogi cynaliadwyedd;
- cynyddu cyfraniad timau cymunedol i Ofal Lliniarol a Gofal Diwedd Oes yn y cartref, gan adeiladu ar ganfyddiadau'r Adolygiad Cam 2 diweddar;
- cynyddu nifer y parafeddygon cymunedol ac ehangu Gofal Cymunedol Estynedig.

### Llwybr 2 (Byddwn yn dechrau gweithio nawr ar ffurf darpariaeth y dyfodol)

Ochr yn ochr, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar y model gofal sy'n seiliedig ar leoedd ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn llunio disgrifiad o ofal rhagorol sy'n seiliedig ar leoedd (y 'fanyleb gwasanaeth'), gyda phwyslais ar eiddilwch. Bydd hyn yn ein galluogi i ragfynegi'r galw a'r gallu ac, yn ei dro, bydd gwneud hynny yn golygu y gallwn leoli a / neu dyfu adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol yn y gymuned ('manyleb y gweithlu'). O ganlyniad, bydd adnoddau yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithlon posibl a bydd canlyniadau gwell yn cael eu cyflawni i bobl. Wrth sôn am eiddilwch, rydym yn cyfeirio at effeithiau corfforol eiddilwch ond hefyd eiddilwch emosiynol, boed hynny o ganlyniad i ffactorau fel unigrwydd, unigedd, profedigaeth neu unrhyw resymau eraill.

Bydd hwn yn fodel graddedig o ofal a chymorth. Bydd iddo graidd cadarnach, a bydd yn ysgogi ac yn cefnogi pobl yn eu cymunedau i gynnal neu wella eu hiechyd a'u lles eu hunain a'u cymdogion.

Byddwn yn edrych ar ba ffurfiau sefydliadol newydd a allai fod o gymorth i gyflawni hyn.

Byddwn yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i sicrhau eu bod yn ailgydbwyso eu cyllid a'u gweithluoedd i ffwrdd o ofal eilaidd i ofal cymunedol.

**Yn yr holl faterion hyn, byddwn yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i fabwysiadu agwedd Digidol yn Gyntaf. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid chwilio am gyfleoedd i gymhwyso technoleg ddigidol arloesol fel rhan o bopeth y byddwn yn ei ystyried. Fodd bynnag, dylid ystyried yr elfen ddigidol fel rhywbeth a fydd yn galluogi'r gwaith yn hytrach nag fel diben penodol. Dylai'r dull hwn o fynd ati gynnwys un pwynt mynediad at wasanaethau cymunedol, gan gynnwys, o bosibl, rif ffôn i Gymru gyfan a fydd wedi'i dargedu i gychwyn at bobl sy'n byw gydag eiddilwch.**